

# DARGANFOD TRYSOR RHUFEINIG

## Pugio



Math o ddagr yw pugio y byddai llengfilwr yn ei wisgo ar ei wregys. Byddai llengfilwr hefyd wedi defnyddio arfau eraill fel y pilum (gwaywffon) a'r gladius (cleddyf). Mae'r dagr wedi ei chadw mewn gwain gydag addurn arian a du. Byddai hon yn eitem ddrud, ac felly dagr milwr cyfoethog oedd hon.



Dolen we

Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn

# Strigil



Offeryn i grafu baw a chwys oddi ar y corff yw strigil. Byddai'r Rhufeiniaid yn rhwbio olew peraroglus ar eu cyrff yn lle defnyddio sebon (a ddyfeisiwyd gan y Celtiaid yn Oes yr Haearn). Byddai'r strigil yn cael ei ddefnyddio i grafu'r olew i ffwrdd.

Cai hyn ei wneud yn y Baddondy, mewn ystafell gynnes o'r enw caldarium. Byddai'r gwres yn gwneud i chi chwysu, a'i gwneud hi'n haws i grafu'r baw a'r olew i ffwrdd.



Dolen we

**Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn**

# Mosiag

Addurn yw mosaic wedi'i wneud o ddarnau bach o wydr neu garreg, a'u trefnu yn batrwm. Canfuwyd y mosaig drysfa yma yng Nghaerllion, mae'n debyg o lawr ystafell fwyta'r Legate. Uwch swyddog ym myddin Rhufain oedd y Legate, tebyg i Gadfridog neu Gadlywydd.

Roedd e'n gyfrifol am y Lleng i gyd. Byddai llawr mosaig prydferth yn dangos ei bwysigrwydd a'i gyfoeth.




**Dolen we**

**Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn**

# Gem

Roedd y Rhufeiniaid yn hoffi gwisgo gemwaith, ac roedd modrwyau yn boblogaidd iawn. Byddai addurniadau yn cael eu cerfio i'r gemau gyda dril. Cornelian yw'r gem hwn sy'n dangos y dduwies Diana Venatrix, duwies yr helfa. Gallai'r perchennog ofyn am unrhyw addurn wrth brynu'r fodrwy.



Roedd hyn yn gwneud y fodrwy yn unigryw, a gallai gael ei defnyddio fel sêl i gadw llythyrau a dogfennau yn gyfrinachol. Byddai'r fodrwy yn cael ei phwyso i gŵyr poeth gan adael ôl yr addurn, er mwyn i'r derbynnydd wybod pwy oedd wedi anfon y llythyr.



**Dolen we**

# Powlen Samiaidd

Byddai Rhufeiniaid cyffredin yn defnyddio llestri crochenwaith neu bren, ond byddai pobl gyfoethog efallai'n defnyddio arian neu aur. Crochenwaith Samiaidd yw'r bowlen hon. Mae wedi ei chreu o glai terracotta tenau gyda phatrwm addurniadol hyfryd wedi'i godi. Cai crochenwaith fel hyn ei greu yn ne Ffrainc a'i fasnachu ar hyd gogledd-orllewin Ewrop.





Yn ogystal â'r gaer, roedd Caerllion yn dref brysur gyda phorthladd ar lan afon Wysg lle byddai llongau'n angori a dadlwytho nwyddau i'w gwerthu neu eu defnyddio yn y gaer. Efallai taw milwr brynodd y bowlen hon wrth siopa ar ei ddiwrnod sbâr.

Dolen we

Rhannwch eich gwaith gyda ni
@Amgueddfa_Learn

# Arch Garrreg

Roedd y rhan fwyaf o Rufeiniaid yn cael eu hamlosgi ar ôl marw, felly mae'r arch garreg hon yn anghyffredin. Mae wedi'i wneud o un darn o garreg Caerfaddon ac yn dal gweddillion dyn fu farw tua 40 oed. Dydyn ni ddim yn gwybod pwy oedd y dyn hwn, ond roedd e'n credu yn y byd nesaf oherwydd iddo gael ei gladdu gyda gwrthrychau i'w defnyddio - powlen a photel wydr.

Cafodd ei ddannedd eu dadansoddi gan wyddonwyr wnaeth ddarganfod ei fod yn ddyn lleol gafodd ei fagu yn ardal Casnewydd. Roedd cael ei gladdu mewn arch yn dangos ei fod yn gyfoethog. Efallai ei fod yn fasnachwr llwyddiannus oedd yn cyflenwi'r gaer yng Nghaerllion.





**Dolen we**

**Darllenwch ragor am yr arch yma.**

# Claddu Piben

amgueddfa cymru
national museum wales

Roedd y rhan fwyaf o Rufeiniaid yn cael eu hamlosgi a'u gweddillion yn cael eu claddu mewn potyn neu jar wydr. Mae'r amlosgiad arbennig hwn yn datgelu rhywfaint am sut y byddai'r Rhufeiniaid yn galaru.




Cai'r corff ei gladdu mewn canistr plwm gyda phiben yn codi i'r wyneb. Byddai offrwm - gwin neu olew efallai - yn cael eu harllwys i lawr y biben hon. Mae gwyddonwyr wedi cadarnhau taw gweddillion dyn tua 35 oed yw'r rhain - milwr efallai neu un o drigolion y dref.



**Dolen we**

**Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn**

amgueddfa cymru
national museum wales

# Ceiniog Denarius

Byddai milwr yn ennill tua 300 denarii y flwyddyn ym myddin Rhufain. Ceiniog fach arian yw denarius. Doedd dim banciau yn oes y Rhufeiniaid, felly byddai milwr yn anfon ei gyflog adref at ei deulu neu’n cadw arian mewn bag neu botyn. Cafodd y geiniog hon ei chanfod yn rhan o gelc a gladdwyd yng Nghaerwent - efallai gan filwr wnaeth byth ddychwelyd, neu'n offrwm i'r duwiau.





Ar y geiniog mae pen Faustina, Ymerodres Rufeinig agwraig yr Ymerawdwr Marcus Aurelius. Ar ochr arall y geiniog mae delwedd o’r dduwies Fenws. **Darllenwch ragor am y celc yma.**

**Dolen we**

**Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn**

national museum wales
amgueddfa cymru

# Mortarium

Byddai culina (cegin) gan lengfilwyr Rhufain yn y barics er mwyn paratoi bwyd. Mortarium yw'r bowlen hon fyddai'n cael ei defnyddio i falu perlysiau a hadau i'w coginio. Roedd grit yn y clai ar waelod y bowlen a'r cogydd yn defnyddio pestl (pastwn pren neu garreg) i falu'r perlysiau neu'r hadau yn erbyn y grit.



Rydyn ni'n lwcus bod llyfr coginio Rhufeinig yn dal i fodoli, sy' cynnwys llawer o ryseitiau dyn o'r enw Apicius. Wyddech chi fod y Rhufeiniaid yn bwyta cacennau melys yn llawn mêl?



**Dolen we**


**Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn**

# Gaing

Nid milwyr yn unig oedd yn byw mewn caer Rufeinig – byddai doctoriaid, gofaint a mwy yno hefyd. Creu a thrwsio arfau oedd gwaith y gof, a byddai hefyd yn creu offer i'r milwyr – morthwylion, llifau, gefeiliau a hoelion wrth gwrs.



Gaing yw'r offeryn hwn, sef cŷn crwm i greu pantiau neu dyllau.



**Dolen we**

**Rhannwch eich gwaith gyda ni @Amgueddfa_Learn**

# Gwnewch Label Amgueddfa!

national museum wales
amgueddfa cymru

Ar ôl gweld ein gwrthrychau ni, dewiswch un ffefryn i arddangos yn eich amgueddfa chi. Bydd angen label ar bob gwrthrych. Darllennwch y wybodaeth am bob gwrthrych a chreu label eich hun.

Dewch o hyd i'ch hoff wrthrych yn yr Amgueddfa. Cymerwch gipolwg 360 o amgylch Amgueddfa Genedlaethol Lleng Rhufeinig.

Edrychwch ar ein casgliadau ar-lein.

**Enw gwrthrych**

What was the object used for?

Why have you chosen this object?

What is your object made of?

amgueddfa cymru
national museum wales

Rhannwch eich gwaith gyda ni
@Amgueddfa_Learn